BUDDUGOLIAETH YR ATGYFODIAD DROS ANGAU

Nodyn i'r siaradwr:
Anogwch bawb i werthfawrogi fel mae Jehofah wedi darparu'r atgyfodiad. Pwysleisiwch mor real ydi gobaith yr atgyfodiad a sut dylai hyn ein gwneud ni'n helaeth mewn gweithredoeddd da

YR ANGEN AM FUDDUGOLIAETH DROS ANGAU (5 mun.)

Mae crefydd yn tueddu i edrych ar farwolaeth fel ffrind—dim ond defod newid byd

Mae'r Beibl yn dangos mai gelyn ydi angau—"y gelyn olaf" (1Cor 15:26)

Mae marwolaeth yn medru taro gwŷr a gwragedd ym mlodau eu dyddiau

Ynghyd â'r golled mae marwolaeth yn ychwanegu sioc, galar a hiraeth, unigrwydd, a hyd yn oed ddryswch i'r anwyliaid a ffrindiau

Yn wir "marw yw tynged pob dyn" (Preg 7:1, 2)

Er gwaethaf ymdrechion gwyddoniaeth i'w drechu mae 'marwolaeth yn dal i deyrnasu' dros y ddynoliaeth (Rhuf 5:17)

Mae gwir angen buddugoliaeth dros angau

YDI BUDDUGOLIAETH DROS ANGAU YN BOSIB'? (15 mun.)

I ateb y cwestiwn, rhaid dod i 'nabod y gelyn—angau a marwolaeth

Mae miliynau o bobl yn gaeth i ofergoeliaeth a thwyllresymu ynglŷn ag angau a marwolaeth (Heb 2:15)

Yn syml, mae'r Beibl yn dangos fod y meirw'n hollol anymwybodol, ac mai gwrthwyneb byw ydi marw (Salm 146:4; Preg 9:5, 10)

Mae marw felly'n debyg i gwsg (Salm 13:3; Ioan 11:11-14)

'Does dim enaid "anfarwol" yn goroesi marwolaeth (Esec 18:4)

'Does dim enaid gan ddyn, enaid *ydi* e! (Gen 2:7, *BCL*)

Pan mae dyn yn marw, fe, yr enaid, h.y. y person sy'n marw

Mae'r Beibl yn dangos pam mae marwolaeth yn digwydd a sut cychwynnodd

Mi 'roedd pob rheswm gan Adda i edrych ymlaen at gael byw am byth; fe gafodd dyn ei greu i fyw nid marw (Gen 2:15-17; 3:22)

Cychwyn marwolaeth oedd anufudd-dod Adda, yna ymledodd marwolaeth i'w ddisgynyddion i gyd (Gen 3:1-6, 19; Rhuf 5:12)

Ond 'dyw'n sefyllfa ni ddim yn anobeithiol

Mae Duw yn addo 'achub' y ddynoliaeth rhag y bedd, a 'llyncu angau am byth' (Hos 13:14; Eseia 25:8)

Beth ydi'r atgyfodiad?

Ystyr lythrennol y gair Groeg sy'n cael ei gyfieithu "atgyfodi" ydi "sefyll eto" (*w*94 10/15 5)

Mae atgyfodi felly yn golygu codi person o gyflwr difywyd angau (*w*99 4/1 18)

Gall Jehofah Dduw yn hawdd gofio'r holl fanylion sy'n rhoi eidentiti i unigolyn (Math 10:30)

IESU GRIST YN EIN GOLEUO NI YNGLŶN Â'R ATGYFODIAD (15 mun.)

'Doedd rhai fel Job, oedd yn byw yn yr amser gynt, ddim yn deall y cyfan am yr atgyfodiad

Ond, fe fynegodd Job ffydd yn yr atgyfodiad (Job 14:14, 15; *w*98 7/1 13)

Fe wnaeth Iesu Grist y cyfan yn eglur inni am yr atgyfodiad (2Tim 1:10; *w*98 7/1 13-14)

Fe addawodd Deyrnas nefol i "braidd bychan"—144,000 o ran nifer (Luc 12:32; Dat 14:1)

Agorodd Iesu'r ffordd i'r nefoedd drwy farw a phrofi atgyfodiad nefol (Actau 2:32; Heb 10:19, 20)

Bydd y 144,000 yn profi atgyfodiad tebyg (Rhuf 6:5)

'Does 'na ddim ailuno enaid gyda chorff daearol—syniad sy'n perthyn i athroniaeth Groeg (*w*98 7/1 11-12)

Maen' nhw'n derbyn cyrff ysbrydol anllygredig (1Cor 15:43, 44; Phil 3:20, 21)

Mae mwyafrif mawr y 144,000 eisoes wedi profi atgyfodiad; dim ond gweddill sydd ar ôl

Fe dd'wedodd Iesu y byddai iachawdwriaeth yn dod hefyd i "ddefaid eraill" fydd yn byw ar ddaear Baradwys (Ioan 10:16; Luc 23:43)

Wrth i Iesu atgyfodi pobl, rhoi rhagflas oedd e o'r hyn y bydd yn ei wneud yn ystod brenhiniaeth ei Deyrnas

Yn y cofnod am Iesu'n atgyfodi mab y weddw o Nain mae'n amlwg fod Jehofah a Iesu yn teimlo tosturi dwys tuag at y rhai sy' wedi colli anwyliaid (Luc 7:11-17; *w*95 3/1 7-8)

Addewid Iesu oedd atgyfodi pawb yn yn y beddau coffa (Ioan 5:28, 29, *NW*)

Mae hyn yn cynnwys y rhai sy' wedi byw bywyd cyfiawn

Mae hefyd yn cynnwys miliynau a fu farw cyn dysgu am wirionedd y Beibl a'i roi ar waith yn eu bywydau (Actau 24:15)

Mae'n rhesymol disgwyl y bydd yr atgyfodiad yn drefnus, gyda'r rhai sy' newydd farw ymhlith y cynta' i gael eu hatgyfodi (1Cor 15:23; *w*98 7/1 23)

Mae'n siŵr y bydd yn rhaid paratoi ar gyfer anghenion y rhai sy'n cael eu hatgyfodi (Eseia 65:21, 22; Luc 8:55)

Dyna gyffrous fydd gweld anwyliaid yn dychwelyd atom a hefyd ffyddloniaid yr hen amser!

LLES YN DEILLIO O'R ATGYFODIAD (10 mun.)

Drwy gyfrwng yr atgyfodiad bydd Iesu'n "dinistrio gweithredoedd y diafol" gan gyflawni bwriad gwreiddiol Duw o gael pobl yn byw am byth ar ddaear Baradwys (1Ioan 3:8)

Mae gobaith yr atgyfodiad yn dod â lles hyd yn oed 'nawr

Mae'n rhoi nerth inni wynebu salwch a marwolaeth (*w*94 7/1 31)

Pan 'rydym yn colli anwylyn nid ydym heb obaith (1Thes 4:13; *g*96 8/22 26-7)

Medrwn wynebu'r argyfwng gwaetha'n ddewr (Math 10:28; *yb99* 68, 144-6, 188-91)

Mae'n ein helpu i gadw agwedd bositif wrth fyw (1Cor 15:32, 58; *w*97 8/15 12)

Wrth inni ddarllen y Beibl bob dydd a myfyrio arno, 'rydym yn cadarnhau ein ffydd yn addewid Duw am atgyfodiad (Jwdas 20, 21)

Os llwyddwn i wneud enw da gyda Duw, mi gawn ni atgyfodiad (Preg 7:1)

Mae Duw yn 'hiraethu' am weld y rhai ffyddlon gynt eto (Job 14:15)

Medrwn ddweud efo Paul: "I Dduw y bo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist" (1Cor 15:57)

Mae'r atgyfodiad yn dangos fod Duw yn drech nag angau—fe biau'r fuddugoliaeth

Gadewch i'ch ffydd yn yr atgyfodiad eich gwneud "yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer" (1Cor 15:58)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)